

Un Llais Cymru



One Voice Wales

Maniffesto

Cynghorau Cymuned a Thref

CONTRACT NEWYDD GYDA CHYMUNEDAU...GWNEUD I DDEMOCRATIAETH WEITHIO I GYMRU

CYFLWYNIAD

Cynghorau Cymuned a Thref yw rhan fwyaf lleol ein democratiaeth a chwaraeant rôl annatod ym mywydau cymunedau yng Nghymru. Rhoddant lais democrataidd a strwythur ar gyfer gweithredu i'n cymdogaethau, pentrefi a threfi – grym gwirioneddol i bobl ar lawr gwlad.

Mae angen mwy o ddemocratiaeth arnom, a mwy o rym i bobl a lleoedd. Mae etholiadau'r Cynulliad 2016 yn gyfle i wleidyddion o bob plaid gefnogi'r lefel o lywodraethu sydd fwyaf lleol ac sydd hefyd yn dod yn fwyfwy pwysig. Cyfle i ddangos eu hymrwymiad i weithredu dan arweiniad y bobl, mewn ffordd sy'n diogelu asedau a gwasanaethau lleol ac sy'n darparu gwasanaethau ymatebol yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol – sydd oll yn gwella bywydau ac yn cryfhau cymunedau.

Mae'r maniffesto hwn yn cyflwyno ein cynnig cadarnhaol i'r Llywodraeth nesaf ac yn creu gweledigaeth newydd o sut ellid darparu gwell gwasanaethau gyda phobl leol. Mae'n amlinellu sut allwn helpu'r Llywodraeth nesaf i wireddu ei dyheadau ar gyfer grymuso cymunedau, cyd-gynhyrchu a datganoli.

Mae'r maniffesto hwn hefyd yn arfogi'r Llywodraeth nesaf gyda nifer o syniadau polisi ar gyfer datgloi grym a photensial cymunedau trwy helpu Cynghorau Cymuned a Thref i ffynnu trwy geisio cynnig bywydau gwell i'w pobl. Ein gweledigaeth yw gwella ansawdd bywydau cymunedau lleol trwy gael Cynghorau Cymuned a Thref bywiog, deinamig ac effeithiol.

Mae Un Llais Cymru eisiau gweithio gyda'r Llywodraeth nesaf i droi'r weledigaeth hon yn realiti. Cytunwn gydag egwyddorion SOLACE¹ (Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol) ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus:

- ✓ *Profwyd fod **DATRYSIADAU LLEOL** yn gweithio'n fwyaf effeithiol i wella deilliannau i gymunedau, sicrhau mwy o effeithlonrwydd a lleihau costau.*
- ✓ *Mae gan **INTEGREIDDIO** y potensial i wella deilliannau, trawsnewid gwasanaethau a sicrhau arbedion ariannol sylweddol. Dyma flaenoriaeth hirdymor cynghorau lleol ar draws pob maes gwasanaeth, a dylai fod felly hefyd i wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.*

¹ **OPPORTUNITY KNOCKS** : An alternative manifesto (Graeme McDonald© The Solace Group 2014)

- ✓ Rhaid ail-ddyfeisio **ATEBOLRWYDD** yng ngoleuni dynesiadau lle-cyfan ar draws y sector cyhoeddus, ac mae angen iddo fod yn ddealladwy i'r cyhoedd.
- ✓ Mae angen **CONTRACT NEWYDD GYDA CHYMUNEDAU** er mwyn adfer ymddiriedaeth ac adeiladu perthynas fwy cynaliadwy, addasedig rhwng y lleol, y wladwriaeth a'r bobl.

MWY AM GYNGHORAU CYMUNED A THREF

Mae 735 Cyngor Cymuned a Thref yng Nghymru, yn cynrychioli'r haen o lywodraeth sydd agosaf at y bobl. Cwmpasant tua 94% o arwynebedd tir a 70% o boblogaeth Cymru.

Mae'r cymunedau a wasanaethant yn amrywio o anheddau gwledig bychain i drefi mawrion ac mae eu cyllidebau yn amrywio yn yr un modd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n gyffredin i bob un ohonynt yw eu bod yn gwasanaethu eu cymunedau ac yn gweithredu i wella ansawdd bywyd yn eu cymdogaethau. Gwneir hynny trwy ddefnyddio nifer o rymoedd a dyletswyddau statudol – a llawer mwy.

Mae Cyngorau Cymuned a Thref yn atebol i'w hetholwyr lleol am ddarparu ystod eang o wasanaethau ac am ddarparu a gofalu am amwynderau lleol.

Mae pob Cyngor yn cynnwys aelodau etholedig, ac weithiau aelodau cyfetholedig. Yng Nghymru mae tua 8,000 o Gynghorwyr Cymuned a Thref, sy'n cynrychioli buddiannau'r gymuned a wasanaethant yn ei chrynswth. Derbynnir fod ganddynt rôl yn cynnig llais y bobl wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

CYNGHORAU CYMUNED A THREF – RÔL EHANGACH

Mae Cynghorwyr Cymuned a Thref wedi ymrwymo i'w cymunedau ac maent yn adnodd Cymru gyfan nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol. Trwy eu corff cynrychioliadol, Un Llais Cymru, mae angen datblygu cysylltiadau agosach gydag adrannau Llywodraeth Cymru.

Yn y dyfodol, fe fydd Awdurdodau Unedol yn gosod disgwyliadau uwch ar adnoddau Cynghorau Cymuned a Thref, ac mae angen i'r trefniadau presennol ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng dwy haen llywodraeth leol gael eu cryfhau ymhellach a'u hadlewyrchu mewn trefniadau Siartr sy'n gosod sylfaen gref ar gyfer gweithio'n effeithiol.

Mae angen cefnogi a datblygu capasiti a sgiliau grwpiau cymunedol i weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Cymuned a Thref yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyffredinol o rymoedd a chyfrifoldebau'r haen hon o lywodraeth .

Dylai unrhyw ddynesiad seiliedig ar le gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid darparu roi ystyriaeth benodol i rôl Cynghorau Cymuned a Thref a'u cysylltu â'r cynlluniau seilwaith a datblygu lleol fel y gallant wella effeithiolrwydd cynlluniau lleol a helpu cynnal budd parhaus ymyriadau lleol.

Mae angen adolygu'r cysylltiadau rhwng haenau llywodraeth leol a chenedlaethol i sicrhau bod dynesiadau cenedlaethol a rhanbarthol yn cael eu deall yn well a'u cynnal yn effeithiol ar y lefel leol a chynnig cysylltiad gyda threfniadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'r dyfodol.

CYNGHORAU CYMUNED A THREF – RÔL EHANGACH

Mae angen i asiantaethau cyhoeddus fod yn fwy ymatebol i anghenion lleol a gall gweithio'n agosach gyda Chynghorau Cymuned a Thref helpu creu gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion a gofynion lleol.

Bydd disgwyl i Gynghorau Cymuned a Thref ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau ac mae hynny'n awgrymu'r angen i feithrin gwell perthnasoedd gyda'r Awdurdodau Unedol. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn arwain at ddyletswyddau ychwanegol a gwahanol i Awdurdodau Unedol a Chynghorau Cymuned a Thref sy'n debygol o greu'r angen i bolisi a strategaeth elwa o wybodaeth leol a gwaith polisi yn seiliedig ar dystiolaeth. O ran cyflwyno dyletswydd cynaliadwyedd ar gyfer y sector, bydd angen darparu adnoddau er mwyn rhoi cychwyn ar y gweithgareddau strategol allweddol fydd eu hangen er mwyn cynnal proses gadarn o gynllunio cymunedol ac ymgysylltu ag etholwyr lleol. Dylai gwaith ymchwil fanteisio ar safbwyntiau cymunedol gan fod rhai polisiâu'n effeithio'n andwyol ar gymunedau lleol, ond mae Cynghorau'n parhau i orfod gweithredu'r polisiâu er gwaetha'r effaith andwyol.

EIN CYNNIG

Cynnig cynrychiolaeth effeithiol, atebol a democrataidd i gymunedau Cymru.

Bod yn ariannol gyfrifol, defnyddio ein grymoedd statudol a defnyddio'r praesept lleol i weithredu ar flaenoriaethau a benderfynwyd yn lleol.

Defnyddio ein gwybodaeth o lawr gwlad i weithio mewn partneriaeth gyda chynghorau a chyrff eraill i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac edrych ar fodelau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau lleol cynaliadwy ac ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb pan mae hynny'n briodol.

Gweithio gyda busnesau lleol a phartneriaid eraill i gefnogi twf ac adfywiad economaidd lleol.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol trwy ddiogelu asedau lleol a llywio datblygiadau fel cartrefi a siopau newydd.

Moderneiddio'r ffordd y gweithredwn, a sicrhau bod Cynghorau Cymuned a Thref yn gydnerth, effeithlon ac effeithiol, gan gynnwys gwella safonau gwaith.

EIN CAIS: Cryfhau democratiaeth leol

Hyrwyddo a chefnogi creu Cyngorau Cymuned a Thref newydd, gan gynnwys cyflwyno Grant Datblygu Cyngorau Newydd a chyflwyno 'hawl i apelio' cymunedol pan wrthodir cais i sefydlu cyngor newydd.

Cryfhau trefniadau safonau ar gyfer ymddygiad cyngorwyr trwy alluogi Cyngorau Cymuned a Thref i gyfeirio camymddwyn honedig i Bwyllgor Safonau sirol i edrych ar honiadau y torrwyd y cod ymddygiad.

Cefnogi'r sector i greu strategaeth gwella a datblygu, a darparu fframwaith ar gyfer llywodraethiant da, ymgysylltu â chymunedau a gwella cyngorau.

Gweithio gyda'r sector i annog mwy o bobl i ddod yn gyngorwyr, a'i gwneud yn haws i bobl sefyll a gwasanaethu, hyrwyddo etholiadau cystadleuol a sefydlu cronfa ddemocratiaeth leol.

Cyflwyno dyletswydd i sicrhau bod cymunedau a threfi yn cyfrannu at brosesau craffu byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu modelau craffu lle y mae Cyngorau Cymuned a Thref yn chwarae rhan yn monitro cyrff cyhoeddus eraill a'r gwasanaethau a gomisiynwyd ganddynt.

EIN CAIS: Ariannu tecach

Sicrhau bod y Grant Cynnal Refeniw a'r gwahanol grantiau gan y Llywodraeth yn cael eu trosglwyddo i Gyngorau Cymuned a Thref gan Awdurdodau Unedol lle'n briodol.

Diwygio'r system trethi busnes i roi cyfran o 5% i Gyngorau Cymuned a Thref i'w helpu cefnogi datblygu economaidd lleol, adfywiad a thwf.

Erbyn hyn dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i sicrhau bod Cyngorau Cymuned a Thref yn derbyn cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, byddai cyflwyno rhaglen Grant Gwelliannau Cyngorau Cymuned a Thref yn annog arloesedd a gallai ddarparu'r adnodd angenrheidiol i symbylu proses trosglwyddo asedau neu wasanaethau rhwng y ddwy haen, rhywbeth sy'n absennol ar hyn o bryd.

Gofalu fod cymunedau yn elwa o ddatblygiadau trwy gamau cryfach i roi cyfran helaethach o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i Gyngorau Cymuned a Thref na'r 'swm ystyrlon' presennol o 15%.

Gweithio gydag Un Llais Cymru i gefnogi'r mudiad i chwarae rôl ehangach yn manteisio ar gyllid Ewropeaidd er lles Cyngorau Cymuned a Thref a'r cymunedau a wasanaethant.

EIN CAIS: mwy o rymoedd

Trwy'r Bil Diwygio Llywodraeth Leol, cyflwyno camau i ddiwygio'r deddfau ar weinyddiaeth Cyngorau Cymuned a Thref, fydd yn cynnwys grymoedd newydd i ddarparu gwasanaethau lleol.

Hyrwyddo'r defnydd o'r Grym Llesiant a chael gwared ag unrhyw beth sy'n atal defnyddio (e.e. terfyn gwariant) yr 'hawl i arloesi' hwn'.

Cryfhau rôl Cyngorau Cymuned a Thref yn y system gynllunio trwy gydlynu polisi i ffocysu ar leoedd a chefnogi cymunedau i lywio'r lle y maent yn byw ynddo trwy roi 'Cynlluniau Lle' ar seiliau statudol.

Cyflwyno 'hawl i ymgysylltu' fydd yn helpu Cyngorau Cymuned a Thref i weithio'n fwy teg ac effeithiol gydag Awdurdodau Unedol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

CYTRYCHIOLI CYMUNEDAU – CYFLAWNI DEMOCRATIAETH

Mae 735 o Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru...

... Ac 8,000 o gynghorwyr yn gwneud gwahaniaeth yn eu cymuned ac yn darparu gwerth £36.5 miliwn o gyfraniadau gwirfoddol bob blwyddyn i gymdeithas yng Nghymru.

Buddsoddir £45 miliwn mewn cymunedau bob blwyddyn yng Nghymru gan Gyngorau Cymuned a Thref.

Bu nifer y bobl a gynrychiolir gan Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn tyfu'n gyson, ac mae dros 2.1 miliwn o bobl wedi elwa o'u gwaith yn barod.



MWY AM UN LLAIS CYMRU

Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref trwy Gymru. Gweledigaeth Un Llais Cymru yw:

"Gweithio gyda chynghorau lleol yng Nghymru i lŵio lleoedd y mae cymunedau eisiau byw ynddynt"

Mae Un Llais Cymru yn anelu at gefnogi Cynghorau Cymuned a Thref i wireddu'r weledigaeth hon a mabwysiadodd y Datganiad Cenhadaeth canlynol i lywio ei waith:

"Cynrychioli buddiannau Cynghorau Cymuned a Thref; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r haen gyntaf hon o Lywodraeth a chydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y sector yn cyfrannu'n llawn i'r nod o ddatblygu cymunedau deinamig a chynaliadwy yng Nghymru."

Un Llais Cymru

24c Stryd y Coleg

Rhydaman

SA18 3AF

01269 595 400

gweinydd@unllaiscymru.org.uk

www.unllaiscymru.org.uk

Un Llais Cymru



One Voice Wales